# Y Dinesydd

Hydref 2011 Rhif 361 Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch Pris: 80 ceiniog

## Sain Ffagan yn hudo defnyddwyr *Which?*

Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru yw 'Hoff Atyniad Ymwelwyr y Deyrnas Unedig' yn ôl ymchwil gan gylchgrawn defnyddwyr *Which?*

Ym mis Mai 2011, gofynnodd cylchgrawn *Which? Travel* i 3001 aelod o'r cyhoedd am eu barn ar atyniadau ymwelwyr roeddent wedi ymweld â nhw yn y ddwy flynedd ddiwethaf.




Daeth Sain Ffagan i'r brig nid yn unig yn y categori 'Amgueddfeydd ac Orielau Celf' ond hefyd fe'i enwyd yn hoff atyniad y Deyrnas Unedig. Sgoriodd 90% o ran boddhad cyffredinol a pha mor debygol oedd yr adolygwyr i argymell ymweliad. Roedd Sain Ffagan yn un o ddim ond pum atyniad i dderbyn y statws *Which? Recommended Provider*, y lleill oedd Sŵ Colchester a Sŵ Caer, Gerddi Botaneg Brenhinol Caeredin a Chastell Leeds, Swydd Caint.

Sain Ffagan yw atyniad treftadaeth mwyaf poblogaidd Cymru gyda dros 600,000 o ymwelwyr pob blwyddyn. Mae'r Amgueddfa'n cynnwys dros 40 o adeiladau sydd wedi'u symud o bob cwr o Gymru a'u hail-godi ar diroedd Castell Sain Ffagan; mae'r rhain yn cynnwys melin flawd a melin wlân, gweithdy sadler a gofaint, eglwys ganoloesol, ysgol Fictoraidd a byngalo 'pre-fab' alwminiwm o'r 1940au. Mae mynediad am ddim i'r Amgueddfa, diolch i gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.

### Neges i'r rhai sy'n tanysgrifio i'r Dinesydd

Diolch i'n darllenwyr sy'n tanysgrifio £8 y flwyddyn trwy archeb banc. OND mae angen i chi wirio eich cyfrif banc oherwydd mae rhai banciau (sy'n amlwg ddim yn deall Cymraeg) yn talu £8 y mis yn lle am y flwyddyn.

## *Gŵr a thân yn ei fol*



Neville Evans o Radur oedd enillydd y Fedal Wyddoniaeth a Thechnoleg eleni yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r Fedal yn cael ei chyflwyno i unigolyn sydd wedi hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ym meysydd gwyddoniaeth a thechnoleg. Anodd fyddai meddwl am enillydd mwy haeddiannol!

Yn wreiddiol o Fforestfach, Abertawe, derbyniodd Neville ei addysg hyd at lefel doethuriaeth yn y ddinas honno. Ar ôl cyfnod fel athro, fe'i benodwyd yn ddarlithydd yn Adran Ffiseg Gymhwysol, UWIST, cyn mynd yn Arolygydd Ei Mawrhydi gyda chyfrifoldeb arbennig am wyddoniaeth.

Dros y blynyddoedd bu Neville yn gweithio'n frwd i godi ymwybyddiaeth o gyfraniad Cymry yn y maes gwyddonol. Ei orchest ddiweddaraf yn y cyfeiriad hwn fu creu cyfres o bosteri lliwgar sy'n addas i'w defnyddio yn yr ysgolion.

Mae'n gyfrannwr cyson i'r cylchgrawn *Y Gwyddonydd*, a'i neges bob amser yn glir a hawdd ei deall. A dyna yw ei ffordd o gyfathrebu â'i gynulleidfa pan fydd wrth ei waith fel pregethwr lleyg - bob amser yn ceisio lleihau'r gagendor rhwng gwyddoniaeth a chrefydd.

Gymaint yw ein braint, felly, o gael erthyglau cyson gan Neville yn *Y Dinesydd*. Fe yw Cadeirydd Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd a diolchwn iddo am ei gyfraniadau – gogleisiol, weithiau, ond wastad yn ddifyr.

I gael gwybod mwy am y posteri cysylltwch â nevilleevans@totalise.co.uk

## Y Dinesydd


Golygydd y rhifyn hwn:
Sian Parry-Jones

Golygydd y rhifyn nesaf (Tachwedd):
Gwynn Matthews

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn
Tachwedd erbyn 27 Hydref at:
Derwen Deg, 2 Restways Close,
Llandaf, Caerdydd CF5 2SB
029 20 562880
e.g.matthews@btinternet.com

Bydd y Dinesydd o hyn ymlaen yn ymddangos ar y 10fed o'r mis. Gallwch anfod digwyddiadau hyd at y 10fed felly i'w cynnwys yn y calendr.

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James
16 Kelston Road, Caerdydd. CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Ceri Morgan
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais
Caerdydd, CF15 7HU
ceri33@btopenworld.com
029 20813812

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones
22 Blaen-y-coed, Radur
Caerdydd, CF15 8RL
07985 174997

Cyhoeddir y Dinesydd gan
Bwyllgor y Dinesydd

Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd


## *Llythyr at y Golygydd*

# Y brifddinas yn dod i'w hoed

Wn i ddim os oedd eich Golygydd y mis diwethaf yn ceisio ysgogi trafodaeth ar dudalennau'r *Dinesydd* ai peidio am berthynas Caerdydd â gweddill Cymru?

Credaf fod gwir angen trafodaeth o'r fath. Roedd ei sylwadau tafod yn y boch, gan ddyfynnu Gwilym Owen am ddyfodol y Gymraeg, yn tanlinellu maint y mewnlifiad cynyddol o Gymry Cymraeg ifanc i'r brifddinas. Hynny ar ben y twf mewn addysg Gymraeg yr ydym yn gyfarwydd â darllen amdano yn eich tudalennau.

Beth ydy effaith hyn ar ein bröydd cynhenid? Ydy o'n effeithio ar y ffordd y mae Caerdydd, fel ein prifddinas, yn cael ei gweld gan bobl mewn rhannau eraill o Gymru? Ydy canlyniad refferendwm mis Mawrth diwethaf wedi lladd, unwaith ac am byth, y syniad nad ydy Caerdydd yn haeddu bod yn brifddinas, syniad oedd yn gyffredin wedi refferendwm 1997?

Mwy o gwestiynau mi wn ond mae'r atebion yn bwysig i ddyfodol y genedl. Perthynas ein prifddinas â gweddill Cymru ydy un o bynciau mawr y dydd. Felly y dylai fod mewn cenedl sydd yn ceisio ail ddiffinio ei hun mewn cyd-destun o ddatganoli pellach a lle mae dyfodol y Gymraeg yn hanfodol.

Cofiwn hefyd mai'r Gymraeg oedd prif iaith trigolion Caerdydd yn ei dyddiau cynnar.

**John M. Rowlands**
*Yr Eglwys Newydd*

# Seren Owain Glyndŵr

Dyna'r enw ar wobr newydd a gafodd ei rhoi am y tro cyntaf eleni yn Neuadd y Ddinas ar Ddydd Owain Glyndŵr, sef 16 Medi. Syniad y Cynghorydd Neil McEvoy oedd hwn, a'r bwriad yw sefydlu cynsail i'r Brifddinas ddathlu'r diwrnod arbennig hwn bob blwyddyn o hyn ymlaen, a hynny mewn ffordd urddasol trwy gydnabod ymdrechion arwyr cyfoes – pobl sydd wedi gwneud gwahaniaeth i'w cymuned yng Nghaerdydd.

Cyflwynodd yr Arglwydd Faer, Yr Athro Delme Bowen, y wobr Seren Owain Glyndŵr i'r arwres gyfoes, Rosaleen Moriarty-Simmonds. Ganed Rosaleen ym 1960 heb freichiau na choesau, yn un o'r babanod Thalidomide a aned ar ddiwedd y 1950au ac ar ddechrau'r 1960au. Mae wedi byw yn y ddinas gydol ei hoes ac nid yw wedi gadael i'w hanabledd ei hatal rhag byw bywyd llawn.

Y ddau arall ar y rhestr fer oedd Simon Fisher, a dderbyniodd gydnabyddiaeth am ei wasanaeth hir (30 mlynedd) fel gweithiwr ieuenctid a chymunedol yn y ddinas a John Day am ei waith fel gwirfoddolwr, yn trefnu pêl-fas a phêl-droed i bobl ifanc, a'i waith elusennol yn Llanedern dros y ddeng mlynedd ar hugain ddiwethaf.



*Yr Arglwydd Faer a cherflun Owain Glyndŵr*

## Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

SIOP Y FELIN, 54-60 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DJ
CABAN, 169 Kings Road, Pontcanna, CF11 9DE
DERI STORES, 1 Wenallt Road, Rhiwbeina, CF14 6SA
VICTORIA FEARN GALLERY, 6b Heol y Deri, Rhiwbeina, CF14 6HF
HALLS, 44 Stryd Fawr, Llandaf, CF5 2DZ
HALCYON DAZE, 55 Wellfield Road, Y Rhath, CF24 3PA
SIOP LYFRAU WINDSOR, 9a Windsor Road, Penarth, CF64 1JB
FOOD FOR THOUGHT, 12 High Street, Y Barri, CF62 7EA
COFFEE LOUNGE, 38 Station Road, Llanisien, CF14 5LT
VEG VENDOR, 8 Station Road, Radur, CF15 8AA

# Pen-blwydd Hapus i Glwb Aelwyd Hamdden Caerdydd

Ar 21ain o Fedi dathlodd yr Aelwyd ei phenblwydd yn 20 oed yng nghwmni Arglwydd Faer Caerdydd, y Cynghorydd Athro Delme Bowen, a'r aelodau.

Llywyddwyd y cyfarfod yn Eglwys Minny Street gan Mr Idwal Hughes. Cafwyd adroddiad llawn ganddo ef a'r llywydd cyntaf, Mrs Gwenda Morgan, ar sut y cychwynnwyd y gymdeithas ganddynt hwy a Mrs Elonwy Jones, hithau yn sefydlu Côr, sy'n ymarfer bob yn ail fore Mawrth yng Nghapel Bethel, Rhiwbeina. Enillodd dair gwaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol dan ei arweiniad. Mewn byr amser tyfodd yr aelodaeth i 100, a threfnwyd rhaglen ddiddorol ac amrywiol ar hyd yr amser ar eu cyfer. Gwnaeth y Parchedig Haydn Thomas, yr Is-lywydd newydd, hel atgofion o'i gysylltiad â'r gymdeithas tra'n swyddog gyda Cymdeithas yr Henoed, a chyflwynodd y Parchedig Menna Brown, yr Is-ysgrifennydd, ei chyfarchion fel aelod gymharol newydd. Yna, cafwyd anerchiad diddorol gan yr Athro Delme Bowen.



Mwynhaodd pawb de blasus a weinwyd gan Miss Audrey Lake a'r gwragedd diwyd ac a baratowyd gan Gwmni *Bant A La Cart*. Torrodd yr Arglwydd Faer cacen y dathlu, oedd yn dangos logo'r Aelwyd a gynlluniwyd flynyddoedd ynghynt gan Mr Gwyn Hopkins. Gwnaed y gacen yn gelfydd iawn gan Mrs Gill Lewis, Dinas Powys. Trefnwyd y dathliad gan Miss Marian Lake, yr Ysgrifennydd, ac aelodau'r pwyllgor.

Beth am i chwithau ymuno â'r gymdeithas hapus hon, fydd yn parhau ddydd Mercher, Hydref 5ed yn festri Minny Street, y Waun Ddyfal am 2 o'r gloch, a'r ddarlledwraig Teleri Bevan yn annerch? Croeso i bawb!

*Menna Brown*

# Cyfarwyddwr Newydd i Langollen



Mae Eisteddfod Rhyngwladol Cerddorol Cymru wedi apwyntio Eilir Owen Griffiths yn Gyfarwyddwr Cerdd newydd yn dilyn Mervyn Cousins a wnaeth adael i gymryd swydd uwch gyda Bwrdd Cysylltiedig Coleg Cerdd Frenhinol.

Mae Mr Griffiths, sy'n 30 oed ac yn frodor o Ddinbych, yn diwtor/trefnydd diwylliannol ym Mhrifysgol Coleg y Drindod, yng Nghaerfyrddin, ond mae e'n fwy adnabyddus efallai drwy Gymru fel Cyfarwyddwr Cerdd Côr CF1 a Chôr Godre'r Garth, sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn dan ei arweiniad.





- Mae amrywiaeth lawn o'n cynhyrchion i'w gweld yn ein hystafelloedd arddangos yng Nghaerfyrddin a Chaerdydd
- Marciau barcud newydd ar bob ffenestr a drws
- Gwydr newydd sydd yn glanhau ei hun ac yn thermol effeithiol
  - Gwarant deg mlynedd heb ddadl
  - Dim costau cudd, dim blaendâl
  - Dyfynbris am ddim heb ymrwymiad
  - Awdurdodwyd yn llwyr gan Secured by Design

NOLAN

**Prif Swyddfa:** 1 St Ivel, Heol Llansteffan, Tre-Ioan, Caerfyrddin, SA31 3BP
**Ystafell Arddangos Caerdydd:** 112 Heol Y Gogledd, Caerdydd, CF14 3AB
E-bost: sales@nolanupvc.co.uk

Ffôn: 0845 600 90 80 www.nolanupvc.co.uk

## *Cywiriadau*

Ymddiheurwn am nifer o gamgymeriadau yn rhifyn mis Medi o'r Dinesydd:

- Clawdd Terfyn oedd testun Cystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Wrecsam. Derbyniodd Gwilym Roberts Wobr Goffa Elfet a Mair Elfet Thomas, ac nid Medal Goffa Syr T.H. Parry Williams.
- Priododd Iwan Walters a Kim Spiller yng Nghapel Minny Street.
- Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Len Rowlands.
- Huw Roberts ydy enw taid Bleddyn.

**Cydymdeimlo â**

... theulu'r diweddar Katherine Howe, yr Eglwys Newydd, a fu farw ym mis Medi.

# Cadwch ryseitiau'r teulu'n ddiogel gyda Chasgliad y Werin

Mae'r cogydd poblogaidd Nerys Howell yn annog teuluoedd i rannu eu ryseitiau gyda Chymru a'r byd.

Tra fo'r rhan fwyaf o'r cogyddion enwog yn ceisio dal ein sylw gyda'u ryseitiau newydd diddiwedd a chynhwysion egsotig mae Nerys o'r farn fod cadw ryseitiau teuluol yn ddiogel mor bwysig ag erioed. Mae hi wrthi'n sganio a llwytho ryseitiau ei theulu hi i Gasgliad y Werin ac mae hi'n erfyn ar deuluoedd Cymru i wneud yr un peth.

Mae Casgliad y Werin Cymru yn wefan gyfoes, ddwyieithog yn arbennig ar gyfer rhannu hanes a phrofiad Cymru a'i phobl â gweddill y byd. Mae'r Casgliad yn tyfu bob dydd ac yn adnodd i bobl Cymru ddysgu am eu hanes, a gall unrhyw un ychwanegu at y casgliad mewn sawl gwahanol fformat.

Mae bron i 30,000 o eitemau – o hen luniau i straeon fideo – yn y Casgliad erbyn hyn a'r gobaith yw y bydd teuluoedd ym mhob cwr o'r wlad yn siarad gyda'u rhieni, mam-gu, tad-cu, nain, taid ac eraill i weld a oes yna hen ryseitiau yn y teulu sydd wedi cael eu pasio o genhedlaeth i genhedlaeth.

Am ragor o wybodaeth ac i lwytho'ch eitemau i Gasgliad y Werin Cymru, ewch i **www.casgliadywerincymru.co.uk**

# *Cymdeithas Ddrama'r Crwys yn diddanu*

Ni ellir ond llongyfarch Cymdeithas Ddrama'r Crwys ar dair noson gofiadwy ar ddiwedd mis Medi. Roedd hi'n gryn gamp i gael rhaglen mor gynhwysfawr yng nghyd ar ddechrau'r tymor i ddiddanu cynulleidfa digon parchus ar y dair noson. Cynhyrchwyd y ddwy ddrama 'Gardd-west Gosforth' gan Betsan Evans a 'Goriad yn y Drws' gan Robin Owen. Robin Gruffydd ac Alun Roberts oedd ar y sain a Dyfrig Davies ar y golau. Aeth elw un perfformiad at Gronfa Eisteddfod Bro Morgannwg.





# Colofn G.R.

Mae pawb mwy neu lai yn ôl yn y tresi bellach ers mis a'r gobaith am Haf Bach Mihangel yn pylu. Mae rhai eisoes wedi darogan Gaeaf caled i ni fel y llynedd ac eira yn disgyn cyn y Nadolig!

Cafwyd Eisteddfod ardderchog yn Wrecsam a daeth nifer o wobrau i drigolion Caerdydd a'r Fro. Mae addysg Gymraeg yn ffynnu yn y ddinas ac eisoes dewiswyd enw ar gyfer y drydedd ysgol Gyfun Gymraeg fydd yn agor yn 2012 yn ardal Llanedern. Pan o'n i'n blentyn yng Nghaerdydd od dim un ysgol Gymraeg yn bodoli ond rŵan maen nhw'n agor fel madarch ac yn ôl y ffigyrau mae tua 20% o blant ysgol Caerdydd yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng yr iaith bellach. Fel y mae'r rhod wedi troi.

Unwaith, dwy'n cofio bod yn nhafarn "Y Black Boy" yn nhre Caernarfon a rhywun yn gofyn i mi o ble o'n i'n dod a minnau'n ateb "Caerdydd". "Caerdydd" meddai'r person "mae popeth hefo chi yng Nghaerdydd a does dim byd hefo ni yma yng Nghaernarfon". Mae peth gwirionedd yn yr hyn a ddywedwyd. Wrth gwrs a dylwn ni gyfrif ein bendithion gan y gallwn fyw ein bywydau bron yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg os dyna ein dewis gan fod cymaint o gymdeithasau, capeli, clybiau, mudiadau, corau ac ati yn arddel yr iaith yma. Mae Caerdydd wedi datblygu i fod yn wir brifddinas ac yn arwain y ffordd mewn sawl maes.

Yn ystod mis Medi bues i yn theatr newydd Richard Burton yn y Coleg Cenedlaethol Cerdd a Drama ar Ffordd y Gogledd yn gweld perfformiadau gan Theatr Ieuenctid Genedlaethol Cymru oedd yn cyflwyno "Yr Hirdaith" yn seiliedig ar lyfr Elvey MacDonald sy'n adrodd hanes Y Wladfa. Cafwyd perfformiad caboledig a brwdfrydig gan tua hanner cant o bobl ifanc o bob cwr o'r wlad. Yr unig feirniadaeth oedd y diffyg cydbwysedd rhwng y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg.

Yna, daeth Cwmni Theatr Genedlaethol Cymru a Sherman Cymru nôl i Gaerdydd i berfformio'r ddrama "Llwyth" ar ôl ymddangos yng Ngŵyl Caeredin. Sgrifennwyd y ddrama gan y dramodydd ifanc a dawnus Dafydd James gynt o'r Bontfaen ac yn gynnyrch addysg Gymraeg yn y ddinas. Unwaith eto cafwyd actio afieithus a daliwyd sylw'r gynulleidfa o'r dechrau hyd y diwedd.

# TRYDARU – FFAD NEU FFENOMENON?

Na, wnes i ddim codi i wylio gêm Cymru yn erbyn Samoa fis diwethaf – sori bois! Yn hytrach 'nes i ddilyn y sgôr ar *Twitter* tra'n gorwedd yn y gwely yn oriau man y bore, ac os nad oedd y sgôr yn ymddangos yn negeseuon fy nghysylltiadau i, roedd tôn eu 140 o lythrennau neu rifau'n dweud y cwbwl!

Yr wythnos cyn hynny, fe wnes i glywed am drychineb erchyll glowyr Cwm Tawe ar fy ffon drwy ddarllen y trydar (*tweets*) diweddaraf gan y BBC neu WalesOnline. Fe allwch chi fynd â'ch ffôn gyda chi i bobman a bod gyda'r cyntaf i ddarllen newyddion wrth iddo dorri drwy'r rhwydwaith gyfathrebu cloi a elwir yn *Twitter!*

Dwy flynedd yn ôl, byddwn i wedi chwerthin petai rhywun wedi hyd yn oed amgyffred â'r syniad fy mod i'n trydaru (*tweeto*). Doeddwn i ddim yn meddwl ei bod hi'n bosibl gyda fy hen ffôn Nokia tan i fi - merch o'r ddinas - fynd i dreulio penwythnos gyda ffrindiau yng ngorllewin Cymru. Roedden nhw'n deall mwy am drydaru nag unrhyw un ro'n i'n nabod ac fe'm hysbrydolwyd i. Erbyn hyn, mae fy niddordeb wedi cynyddu tipyn.

Sawl blwyddyn yn ôl, penodwyd swyddog cyfathrebu'r we i dîm cyfathrebu Amgueddfa Cymru. Ar y pryd, swydd newydd oedd hi gyda gofyn am dipyn o arbrofi gyda thechnegau a rhwydweithiau gwahanol. Erbyn hyn, mae'n swydd brif-ffrwd ac angenrheidiol. Ni fyddai'r ymgyrch ddiweddar i hyrwyddo'r Amgueddfa Gelf Genedlaethol wedi bod yn gymaint o lwyddiant heb yr elfen ar-lein. Ar ddiwrnod agoriadol yr Amgueddfa newydd, rhedodd yr Echo stori i annog pobl i ymweld - stori gafodd ei chynllunio gyda'r papur sawl diwrnod cyn hynny. Ar yr un dydd, roedd modd i ni ymateb i'r ffaith ei bod hi'n glawio, drwy annog y rheiny oedd yn ceisio penderfynu beth i'w wneud, i ddod i'r Amgueddfa Gelf ar *Twitter*. Ac fe ddaethant!

Ond pam defnyddio *Twitter* ac ar gyfer pwy yw'r rhwydwaith? Onid yw *Facebook* a gwefannau, tecstio a *Skype* yn ddigon? Mae rhai'n teimlo taw *"fad"* yw trydaru a bydd pobl yn siarad am rwydwaith ar-lein newydd cyn bo hir. Ar hyn o bryd, serch hynny, mae'n ffenomenon!

***Catrin Mears***

## Rysáit Mis Hydref

### PWDIN FFRWYTHAU A CHNAU

Gellir defnyddio unrhyw ffrwythau neu gymysgedd o ffrwythau tymhorol ar gyfer y pwdin yma. Mae'r cnau yn ychwanegu ansawdd crensiog i'r gymysgedd ond nid yw'n angenrheidiol i'w cynnwys.

Digon i 4

***Cynhwysion***

- 700g o ffrwythau tymhorol fel afalau, eirin, mwyar, gellyg wedi'u plicio a'u torri
- 110g o siwgwr demerara
- 90g o fenyn wedi'i doddi
- 40g o flawd plaen
- 90g o geirch
- 50g o gnau wedi'u torri e.e. almonau, cnau ffrengig, cnau cyll (os dymunir)

Twymwch y ffwrn (Nwy5/ 375°F/ 190°C). Rhowch y ffrwythau mewn dysgl gron 18cm sy'n dal gwres, wedi'i hiro. Ysgeintiwch 50g o'r siwgwr ar ben y ffrwythau. Mewn dysgl arall cymysgwch y blawd, y ceirch, (y cnau os dymunir) a gweddill y siwgwr, ychwanegwch y menyn wedi'i doddi a chymysgu'r cyfan yn dda. Arllwyswch y cymysgedd dros yr afalau. Pobwch am 35 munud nes bydd y ffrwythau wedi'u coginio a wyneb y pwdin yn euraidd.

**Diolch i Ymgynghoriaeth Bwyd Howel (www.howelfood.co.uk) am y rysait.**

## Merched y Wawr Caerdydd

Cawn ddechrau ein tymor newydd yng nghwmni Manon Rhys, Prif Lenor Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Fro a fydd yn sôn am ei nofel fuddugol, 'Neb ond Ni'. Cynhelir y cyfarfod nos Fawrth, Hydref 11 yn festri Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, Westminster Crescent, Cyncoed am 7.30yh.

Mae croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod arbennig hwn ac wrth gwrs, edrychwn ymlaen at gwrdd ag aelodau hen a newydd.

## ENW LLIWGAR AR RWYDWAITH SEICLO NEWYDD

Mae Cyngor Caerdydd wedi datblygu cynllun ar gyfer rhwydwaith seiclo ledled y ddinas a gaiff ei alw'n Enfys, ac a gaiff ei gynrychioli gan logo disglair a lliwgar newydd.

Yn dilyn cystadleuaeth i enwi'r rhwydwaith a lansiwyd ym mis Ebrill, cafwyd dros 100 o gynigion gan drigolion Caerdydd gyda bron 15 y cant ohonynt yn cynnig yr enw Enfys. Pleidleisiodd Grŵp Cyswllt Seiclo Caerdydd ar restr fer o enwau, gan gytuno'n unfryd ar Enfys hefyd.

Ynghyd ag enwi'r rhwydwaith, mae'r cyhoedd wedi chwarae rhan fawr yn natblygiad y rhwydwaith seiclo newydd yn y ddinas. Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â'r cyhoedd ac mae eu hadborth wedi helpu i nodi'r llwybrau allweddol ar gyfer seiclo yn y ddinas. Dros y pum mlynedd nesaf, bydd y Cyngor yn buddsoddi yn y rhwydwaith seiclo newydd a fydd yn ei gwneud yn haws ac yn gynt i seiclo o amgylch y ddinas.



## Ôl-Lwybrau

**Linda Thomas**

Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf daeth dau frawd a weithiai yn ffatri Rheilffordd y Great Western, Swindon i weithio yn nociau Caerdydd. Dychwelodd un ond arhosodd y llall gan symud ei deulu i fyw i Heol Seland Newydd, Cathays. Y gŵr hwn oedd fy nhad-cu ar ochr fy mam. Ganed hi yn 1920, yr unig un o bump o blant i gael ei eni yng Nghymru.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd ymunodd dyn ifanc o bentref Disley ger Stockport â'r fyddin ac fe'i anfonwyd i'r Gatrawd Gymreig ym marics Maendy. Wrth i'r milwyr orymdeithio yn y strydoedd cyfagos sylwodd y milwr ifanc ar ferch benfelen. Ie, fy nhad oedd y milwr a mam oedd y ferch! Priododd y ddau ar ôl y rhyfel a symud i fyw drws nesaf i rieni fy mam. Fe'm ganed yno yn 1954 a chael fy magu ar aelwyd ddi-Gymraeg.

Sut a pham y deuthum yn Gymraes, felly? Yn Ysgolion Allensbank a Cathays y sylweddolais fy mod yn hoff o ieithoedd, yn arbennig y Gymraeg. Bûm yn ffodus i gael athrawon gwych ac uchafbwynt pob blwyddyn oedd wythnos yn un o wersylloedd yr Urdd. Dyma gyfnod cyffrous y cyrsiau iaith oedd dan ofal athrawon brwd a'm hysbrydolodd. Fy uchelgais oedd bod yn un ohonynt!

Er mwyn ymarfer a dysgu mwy o Gymraeg mynychais Aelwyd yr Urdd yn Heol Conwy a Chôr yr Aelwyd. Euthum ymlaen i Goleg y Brifysgol, Aberystwyth i astudio'r Gymraeg a gwneud criw o ffrindiau Cymraeg eu hiaith. Daeth un ohonynt, Alun, yn ŵr i mi yn ddiweddarach.

Cyfnod prysur oedd y blynyddoedd dilynol – gyrfa yn athrawes ail iaith yn Ysgolion Prestatyn a Llantarnam, Cwmbrân cyn i'r rhod droi a chael dychwelyd i Ysgol Cathays yn bennaeth adran. Priodi, magu dau fab, Gethin a Rhys ac ymfalchïo yn y cyfle i roi addysg Gymraeg iddynt yn ysgolion Melin Gruffydd a Glantaf.

Tybed beth feddyliai'r cyndeidiau o'r Gymraes hon ymhlith eu disgynyddion?


Prifysgol Cymru
University of Wales

**Siop Prifysgol Cymru**

- Llyfrau a chyfnodolion o'r safon uchaf a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Cymru yn Gymraeg a Saesneg.
- Llyfrau ar gyfer y darllenydd lleyg, myfyrwyr ac academyddion.
- Papurau ymchwil a ddarlithoedd y Ganolfan Uwchefrydiau Cymraeg a Cheltaidd, Aberystwyth
- Dillad, gemwaith ac anrhegion
- Bargeinion

Ymwelwch â ni yng nghwarter y Castell, Caerdydd:
12 Heol Fawr • Caerdydd • CF10 1AX
Ffôn: 029 20228205 • E-bost: siop@cymru.ac.uk



**Capel y Rhath**

Pen-y-wain Road, Y Rhath, Caerdydd, CF24 4GG

**Oedfa Bregethu Gymraeg wythnosol**

am 3.30 brynhawn Sul yn adeilad Tabernacle Cardiff.
Darperir cyfieithiad.
Oedfaon Arbennig:
Gwasanaeth Diolchgarwch **Nos Lun Tachwedd 7fed am 7.30yh**
Parchedig Dafydd Morris

Noson o Garolau **Nos Iau Rhagfyr 15fed am 7.30yh**
Dydd Nadolig **Oedfa Bregethu am 3.30yp**

**Croeso cynnes i bawb.**
Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag:
Alun Higham (029) 20689985 alunhigham@capelyrhath.org

# Fflam y Gemau yng Nghaerdydd

Mae Caerdydd wedi'i chadarnhau fel un o'r dinasoedd y bydd y Dortsh Baralympaidd yn ymweld â hi, gan arwain y Deyrnas Unedig at gychwyn Gemau Paralympaidd Llundain 2012. Bydd yn cychwyn ddydd Gwener 24 Awst 2012 gyda'r digwyddiad cyntaf o gynnau'r dortsh i'w gynnal yn Llundain. Bydd fflam hefyd yn cael ei chynnau ym Melffast a Chaeredin yn ogystal ag yng Nghaerdydd.

Caerdydd yw'r ddinas olaf cyn cynnal seremoni arbennig yn Stoke Mandeville, cartref y Mudiad Paralympaidd, i greu'r Fflam Baralympaidd cyn iddi gyrraedd y Stadiwm Olympaidd mewn da bryd ar gyfer Seremoni Agoriadol y Gemau Paralympaidd.

Bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd ddydd Llun 27 Awst a bydd yn cynnwys cynnau'r fflam yn y bore i'w ddilyn gan Ŵyl y Fflam Baralympaidd yn hwyrach yn y diwrnod.

Mae Caerdydd yn mynd i fod yn gartref cyn y gemau i nifer o dimau Paralympaidd o Dde Affrica, Awstralia a'r Ynysoedd y Cefnfor Tawel wrth iddynt baratoi ar gyfer y Gemau yn Llundain.

# Gwobr Diogelwch

Mae cyfleuster Parcio a Theithio wedi cael gwobr ddiogelwch bwysig. Mae'r maes parcio, sydd oddi ar yr A48 (Eastern Avenue) wedi derbyn Gwobr Parcio Diogelach Park Mark® ar ôl cyrraedd safon y Cynllun Parcio Diogelach, gan gynnwys rheoli ansawdd, gwyliadwraeth effeithiol, goleuo priodol ac amgylchedd glân.

Gellir cyrraedd Parcio a Theithio Dwyrain Caerdydd, sydd â 952 o lefydd parcio, o Gyfnewidfa Pentwyn ac mae bysus yn rhedeg bob 15 munud yn syth i Blas Dumfries ar ddiwedd Heol-y-Frenhines (wrth ymyl Sainsbury's). Mae'r bws yn mynd mewn lôn benodol i fysus.

Pris y Parcio a Theithio am barcio trwy'r dydd yw £3 y car gyda bysus yn rhedeg o 7am tan 8:30pm dydd Llun i ddydd Gwener ac o 8am tan 6.15pm ar ddydd Sadwrn a 10am tan 5.15pm ar ddydd Sul. Mae'r bysus yn rhai â llawr isel, sy'n hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn ac sy'n gallu derbyn pramiau.

# *Agor y Drws i Fywyd Newydd*

Does dim dwywaith bod bywyd yn gallu bod yn uffern ar y ddaear i rai pobl. I'r rheiny sy'n byw o fewn cyrraedd i Gaerdydd, bu agor y Stafell Fyw ar 8 Medi yn achlysur o bwys - rhywbeth a all arwain at weddnewid eu bywyd yn gyfan gwbl.

Canolfan Adferiad yw Stafell Fyw Caerdydd (SFC), a'r nod yw darparu cefnogaeth i unrhyw un sy'n cael anawsterau mewn perthynas ag alcohol, cyffuriau neu unrhyw ddibyniaeth niweidiol arall

Mae'r drws yn agored i unrhyw un ac mae'r croeso yn gynnes ac anfeirniadol. Gall yr ymwelydd sgwrsio'n anffurfiol ag eraill mewn awyrgylch ddiogel a chyfeillgar neu ofyn am sgwrs breifat, un i un, gydag un o'r cynghorwyr. Mae'r pwyslais wastad ar godi hyder a hunan-barch yr unigolyn; gweithio yng nghyd-destun y gymuned y mae'n byw ynddi ac, yn bennaf oll, cynnig cefnogaeth ac ôl-ofal parhaol.

Mae SFC ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, o naw o'r gloch tan bump; mae'n darparu man diogel, ac yn cynnig cefnogaeth grŵp a chefnogaeth unigol. Am fwy o wybodaeth ewch i www.thelivingroom-cardiff.com neu ffoniwch 029 2049 3895.

# MWY O LUDW

Yn dilyn llwyddiant ysgubol Prawf y Lludw 2009 yn y ddinas, mae Bwrdd Criced Cymru a Lloegr wedi cadarnhau y bydd Stadiwm SWALEC Morgannwg yn cael ei ddefnyddio fel lleoliad yn y gyfres pum gêm rhwng Lloegr ac Awstralia mewn pedair blynedd ynghyd â'r Oval, Lord's, Trent Bridge ac Edgbaston.

Bydd y ddinas hefyd yn cynnal Prawf Lloegr yn erbyn Seland Newydd yn 2013 ynghyd â nifer o gemau rhyngwladol undydd dros yr ychydig o flynyddoedd nesaf gan gynnwys De Affrica yn 2012, Awstralia yn 2013, India yn 2014 a Phacistan a Sri Lanka yn 2016. Bydd gêm ryngwladol Twenty20 rhwng Lloegr ac Awstralia hefyd yn cael ei chwarae yng Nghaerdydd yn 2015.

# *Arddangosfa gan Gymdeithas Ddinesig Rhiwbeina*

Cynhaliwyd yr arddangosfa yng Nghanolfan Beulah ar 17 Medi ac yn ystod sesiwn y bore lansiwyd ail argraffiad o lyfryn Wynford Davies yn adrodd hanes Rhiwbeina gan Andrew Davies, mab hynaf yr awdur sy'n adnabyddus fel sgrifennwr sgriptiau ar gyfer y teledu.

Cafwyd hefyd teithiau o gwmpas y pentre dan arweiniad John Yewlett ac yn y prynhawn cafwyd darlith yn y Llyfrgell am sefydlu Pentrefi'r Gerddi yn gyffredinol gan yr Athro Simon Unwin.

menter caerdydd

**www.mentercaerdydd.org**
**029 20689 888**

## Hwyl yr Haf

Cynhaliwyd sesiynau Hwyl Haf yng Nghaeau Llandaf a Pharc Hailey, Ystum Taf, rhwng Awst yr 8fed a'r 12fed. Roedd y sesiynau 2 awr o hyd yn gyfle i'r plant chwarae gyda dŵr, dysgu am fywyd gwyllt, creu dens a chymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a chelf a chrefft.

Diolch i bawb a fynychodd, gobeithio bod y plant wedi mwynhau cymaint a wnaeth y staff!

## Gweithgareddau Hanner Tymor Ieuenctid

Bydd y gweithgareddau canlynol yn digwydd yn ystod hanner tymor ar gyfer disgyblion blwyddyn 7, 8 a 9 – Gweithdy Ffaswin/Gwnïo, Rafftio Dŵr Gwyn a Taith Paintball.

Am fanylion pellach am amseroedd, lleoliadau, oedrannau, ac i gofrestru, ewch i wefan y Fenter, neu e-bostiwch **angharad@mentercaerdydd.org**

## Bwrlwm – Chwarae Rhydd i Blant am ddim!

Dydd Llun, Hydref 24 – Dydd Gwener, Hydref 28

| | | |
|---|---|---|
| Y Tyllgoed: | Ysgol Coed y Gof | 10.30am - 12.25pm |
| Caerau: | Ysgol Nant Caerau | 1.30pm - 3.25pm |
| Sblot: | Ysgol Glan Morfa | 10.30am - 12.25pm |
| Llanedern: | Ysgol y Berllan Deg | 1.30pm - 3.25pm |

Croeso cynnes i blant 4-12 oed sy'n mynychu addysg Gymraeg. Does dim angen cofrestru o flaen llaw, dim ond dod ar y diwrnod! Mae'r sesiynau yn rhad ac am ddim.



*Criw Clwb Glee Menter Caerdydd ar Gwrs dau ddiwrnod a pherfformiad llwyddiannus yn y Lanfa*



*Aelodau o Ferched y Wawr Caerdydd yn disgwyl am eu te prynhawn yn Nhy Te Waterloo ym Mhenlan ar ddiwedd blwyddyn lwyddianus arall i'r gangen*

## Cynlluniau Gofal

Bu'r Cynlluniau Gofal yn rhedeg dros yr haf yn Ysgolion Treganna a Melin Gruffydd. Cafodd y plant y cyfle i wneud nifer o weithgareddau gwahanol a bydd y Cynllun Chwarae yn cael ei gynnal eto yn ystod hanner tymor.

**Hydref 24 - Hydref 28**

8.30am – 5.30pm

£15 y diwrnod

Tripiau, gweithdai, ymweliadau, gweithgareddau crefft a choginio, chwaraeon ayyb.

Croeso i ddisgyblion o ddosbarth derbyn i flwyddyn 6.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â **marirhys@mentercaerdydd.org**

## Cwis y Mochyn Du

Fe fydd cwis Cymraeg nesaf y Fenter yn cael ei gynnal Nos Sul, Hydref 30 yn y Mochyn Du am 8pm. £1 y person. Mae croeso cynnes i bawb!

## Facebook a Twitter

Cofiwch fod gan y Fenter gyfrif Facebook a Twitter, felly beth am ein dilyn ni, neu ychwanegu ni fel ffrind er mwyn sicrhau eich bod chi'n derbyn y newyddion diweddaraf!

## Miri Meithrin

Canolfan Hamdden Pentwyn – Dydd Mawrth, Hydref 25, 2pm - 3.30pm

Dewch i ganu a dawnsio gyda Martyn Geraint, a chwrdd â Norman Preis a Sali Mali.

Hefyd Castell Wynt, Celf a Chrefft a lluniaeth ysgafn. £3 i bob plentyn/babi. Rhieni am ddim.

# O'r Meysydd Chwarae...

## C.R.I.C.C.

### (Clwb rygbi i blant Caerdydd a'r Fro sy'n siarad Cymraeg)

Mae CRICC wedi troi un ar hugain oed a nawr yn ddigon aeddfed a hyderus i ysgwyddo'r cyfrifioldeb o redeg carfan ar gyfer pob oedran o'r dan saith hyd at dan un ar bymtheg.

Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, etholwyd Rupert Jones yn Gadeirydd ac Aled Williams yn Ysgrifennydd newydd. Braf yw gweld y brwdfrydedd sydd ganddynt yn ceisio sicrhau y bydd datblygiad a llwyddiant CRICC yn parhau.

Mae'r plant wedi bod yn ymarfer ers dechrau mis Medi ac ar y deunawfed fe chwaraewyd gêmau dan 8, 9, 12 ac 13 yn erbyn Dinas Powys a thîm dan 14 yn erbyn Penarth. Enillwyd dwy, collwyd dwy a chafwyd gêm gyfartal dan 8. Ar y pumed ar hugain enillodd dan 14 yn erbyn Llanisien o 38 pwynt i 5 a chollodd dan 13 mewn gêm agos i'r un clwb.

Gan fod goleuadau ar gael ar Faes Diamond, mae pob oedran o'r dan 9 i fyny yn achub mantais o'r cyfleusterau ac yn ymarfer ganol wythnos fel hyn :-

Nos Fawrth : < 10 Dechrau 5:45 pm

Nos Fercher : < 9 a 12 am 6 pm ; < 11 am 6:15 pm

Nos Iau : < 13 a 14 am 6 pm

Mae mwyafrif y carfanau bron yn llawn ond os oes rhywun wedi dod i hoffi'r gêm ar ôl dechrau mewn ysgol gyfun (h.y. blwyddyn 7 sef dan 12) yna mae croeso i chi ymuno â charfan CRICC. Mae angen bechgyn mawr trwm neu gryf yn arbennig, i chwarae yn y pac. I'r rhai sydd yn y flwyddyn olaf yn yr ysgol gynradd beth am ymuno i gael profiad o'r gêm cyn mynd i'r uwchradd.

Am fanylion pellach cysylltwch ag Ysgrifennydd CRICC ar 029 20216619.

## CLWB CYMRIC

### (Clwb Pêl-droed Cymry Caerdydd)

Sefydlwyd Clwb Cymric yn 1969 gan grŵp o ffrindiau oedd eisiau chwarae pêl-droed a chymdeithasu drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Erbyn heddiw mae'r clwb yn cynnwys dros 60 o chwaraewyr yn hanu o dros Gymru gyfan ac yn gyfuniad o bobol broffesiynol, myfyrwyr coleg a disgyblion ysgol. Ers sawl tymor bellach, mae'r clwb wedi rhedeg dau dîm hŷn sydd yn chwarae yng nghynghrair Brains SA Caerdydd a'r Fro. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r clwb wedi datblygu cysylltiadau gyda chlwb pêl-droed yr Urdd a hefyd canolfan pump bob ochor Gôl lle mae sawl chwaraewr yn hyfforddi.

Am y tro cyntaf eleni mae'r clwb wedi sefydlu tîm dan 18 oed, 'Clwb Ieuenctid Cymric' sydd yn cystadlu yng Nghynghrair Ieuenctid Cymdeithas Bêl-droed De Cymru. Y bwriad ydy rhoi cyfle i ieuenctid y ddinas barhau i fwynhau chwarae pêl-droed drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg a hefyd datblygu chwaraewyr ar gyfer y ddau dîm hŷn. Bydd Clwb Ieuenctid Cymric yn creu cyswllt rhwng clwb pêl-droed llwyddiannus yr Urdd a thimau hŷn Clwb Cymric.

Yn dilyn cyfres o dreialon ar ddechrau'r haf bu'r bechgyn yn ymarfer yn galed a chwarae gemau cyfeillgar gan ddangos addewid mawr. Mae'r canlyniadau ers dechrau'r tymor wedi bod yn addawol gyda rhai chwaraewyr yn barod wedi cael cyfle chwarae i'r ddau dîm hŷn. Hoffwn ddiolch i gwmni Admiral am noddi'r crysau ar gyfer y tymor newydd a hefyd cwmni Darwin Grey am eu cymorth.

## Adroddiad Rygbi Cadair Olwyn

Ddoe aethon ni i weld rygbi cadair olwyn.Y gêm gyntaf gwelsom ni oedd Prydain yn erbyn Gwlad Belg. Y sgôr oedd 53 i Brydain a 50 i Wlad Belg. Yr ail gêm gwelsom oedd Siapan yn erbyn Gwlad Belg. Y sgôr oedd Siapan 63 Gwlad Belg 56. Y gêm derfynol oedd Awstralia yn erbyn Prydain ond yn anffodus Awstralia ennillodd.

Roedd gwylio'r gemau yn gyffrous. Roedd gennym ni ofn wrth iddynt cwympo o'u cadeiriau. Roedd hi'n swnllyd iawn yna!! Roedd yr awyrgylch yn ffantastig!! Ennillon ni bêl rygbi i'r ysgol.

***Jac Boulton***



***Clwb Cymric** (Clwb Pêl-droed Cymry Caerdydd)*

# Ysgol Gymraeg Coed y Gof

### Croesawu

Mae'n ddechrau blwyddyn academaidd brysur arall yn Ysgol Coed y Gof ac rydym eleni yn ffodus iawn i groesawu nifer o aelodau newydd at ein staff.

Croeso mawr i Mr Dewi Rees sy'n athro newydd ym mlwyddyn 4 a'n cynorthwyon newydd sef, Miss Emma Morris, Mr Emyr John a Mrs Kirsty Turner. Mae Mr John yn gyn-ddisgybl sydd am gael blwyddyn o brofiad cyn cychwyn ar gwrs addysgu. Braf gweld hen wynebau yn dychwelyd atom!

Maent eisoes wedi ymgartrefu yn ein plith ac rydym yn mawr obeithio y byddant yn mwynhau ac elwa o fod yn rhan bwysig o dîm gweithgar yr ysgol. Edrychwn ymlaen at gydweithio â hwy gydol y flwyddyn brysur sydd o'n blaenau.

### Llongyfarchiadau

Estynnwn ein llongyfarchiadau i Miss Sam Griffin, athrawes Blwyddyn 1, a briododd dros wyliau'r haf. Dychwela i'r ysgol fel Mrs Hunt ac rydym yn dymuno'n dda i hithau a'i gŵr, Matt, ar gychwyn eu bywyd priodasol.

Hoffwn hefyd longyfarch Miss Elin Stewart, athrawes y Dosbarth Derbyn, ar ei dyweddïad diweddar â'i phartner Mr David James. Dymunwn yn dda iawn i'r ddau ohonynt ar gyfer y dyfodol.

# Ysgol y Berllan Deg

Croeso nôl i bawb ar ôl gwyliau'r haf. Mae pawb wedi dechrau setlo yn eu dosbarthiadau newydd ac yn barod am dymor prysur iawn.

### Maes y Fron *(Call of The Wild)*

Cafodd 51 o ddisgyblion Blwyddyn 5 dridiau i'w cofio yn dysgu pob math o sgiliau newydd ar Fferm Maes y Fron, Abercraf. Cawsom dywydd da eleni, a heb amheuaeth, y gweithgareddau mwyaf poblogaidd fu'r sgramblo ceunant.

### Staffio

Croeso atom i Miss Catrin Fflur Williams i Flwyddyn 5, a chroeso nôl i Mrs Rhian Carbis i Flwyddyn 6 ar ôl bod yn Ymgynghorydd Gwyddoniaeth i Gyngor Caerdydd. Yn ychwanegol, croesawn gynorthwywyr dosbarth i'n plith, sef Miss Amy Hunt, Miss Nia Wilson a Miss Catrin Osborne. Dymuniadau gorau i Miss Siwan Dafydd sydd ar secondiad y Gymraeg gyda Chyngor Caerdydd am flwyddyn. Pob lwc hefyd i Mrs Maxine Curtis a fydd yn dechrau ei chyfnod mamolaeth ddiwedd Medi.

### Cyfarchion

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Catrin Williams ar achlysur ei phriodas gyda Darren Jones yn ystod gwyliau'r haf, a llongyfarchiadau hefyd i Miss Rhian Gregory ar ei dyweddïad gydag Urien Deiniol.

### Adroddiad Estyn

Rydym yn falch iawn o ganlyniad cadarnhaol iawn adroddiad Estyn o arolwg diweddar ym mis Gorffennaf. Diolch i holl gymuned yr ysgol am eu gwaith caled.

# Ysgol Bro Morgannwg

Yn dilyn cyhoeddi canlyniadau Lefel A eleni ym Mro Morgannwg, mae 5 allan o'r 6 disgybl mwyaf llwyddiannus yn fechgyn ac felly maent wedi gwneud yn gwbl groes i'r arfer Genedlaethol. Ar y brig i'r merched oedd Catrin Williams o'r Barri. Mae wedi llwyddo i ennill ysgoloriaeth i Brifysgol Aberystwyth ac wedi llwyddo i gael canlyniadau ardderchog. I'r bechgyn llwyddodd Gareth Davies o Ddinas Powys ennill 3 gradd A*. Bydd Gareth yn astudio Meddygaeth yn Rhydychen. Llwyddodd Steffan Jones, aelod o academi pêl-droed Caerdydd a fynychodd yr ysgol am un diwrnod yr wythnos yn unig, i gyfuno ei hyfforddiant pêl-droed gydag astudiaeth annibynnol i gael set o ganlyniadau anhygoel gan gynnwys NVQ yn 'Sporting Excellence'. Hefyd yn ennill graddau A i gyd oedd Joe Chucas, Steffan Griffin ac Iwan Britton.

Rhyngddynt, mae pedwar disgybl o flwyddyn 11, sef Rhian Roberts, Harri Foster Davies, Wil Thomas a Ioan Williams wedi llwyddo i ennill 43 gradd A* a 9 gradd A yn eu harholiadau TGAU. Llwyddodd 87% o'r disgyblion i ennill graddau A* i C mewn pump neu fwy o bynciau. Roedd tri disgybl talentog o flwyddyn 9, Robin Tait a'r efeilliaid Lydia a Joseff Richards yn wên o glust i glust gan iddynt lwyddo i ennill graddau A* yn Almaeneg a hynny ddwy flynedd yn gynnar. Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion, rhieni ac athrawon ac edrychwn ymlaen at groesawu nifer o'r disgyblion llwyddiannus nôl i'r chweched dosbarth lle byddant yn parhau â'u hastudiaethau ac yn datblygu yn unigolion ifanc blaengar sy'n cyfrannu at ethos yr ysgol.

Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion, rhieni ac athrawon ac edrychwn ymlaen at groesawu nifer o'r disgyblion llwyddiannus nôl i'r chweched dosbarth lle byddant yn parhau â'u hastudiaethau ac yn datblygu yn unigolion ifanc blaengar sy'n cyfrannu at ethos yr ysgol.

# Ysgol Plasmawr



*Ymgeiswyr Gwobr Dug Caeredin Ysgol Plasmawr*

### Plasmawr yn bwrw'r mil

Undeg tri o flynyddoedd ers iddi agor ei drysau am y tro cyntaf mae Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr wedi croesi'r mil yn nhermau poblogaeth disgyblion. Agorodd Plasmawr ym mis Medi 1998 gyda 351 disgybl ym mlynyddoedd 7, 8 a 9 a 30 aelod o staff. Bellach mae 1025

disgybl yn yr ysgol ac 85 aelod o staff. Mae'r twf mewn niferoedd yn adlewyrchu'r cynnydd aruthrol yn y galw am addysg Gymraeg yn y brifddinas dros y ddegawd ddiwethaf sydd wedi arwain at yr Awdurdod Lleol yn agor mwy o ysgolion cynradd ar draws y ddinas.

Fe fydd agor Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern ym mis Medi 2012 yn cael effaith ar niferoedd Ysgol Plasmawr wrth i Ysgol Gynradd Pwll Coch symud i ddalgylch Ysgol Glantaf .

Tybed ymhen sawl blwyddyn y bydd poblogaeth yr ysgol yn cyrraedd y mil unwaith eto?

### Canlyniadau'r Haf

Mae perfformiad disgyblion yr ysgol yn yr arholiadau allanol eleni wedi bod yn wirioneddol wych ac wedi sicrhau fod Plasmawr ymhlith yr ysgolion a berfformiodd orau yng Nghymru. Mawr oedd y dathlu ymysg y disgyblion a'u rhieni ar ddiwedd mis Awst. Roedd canlyniadau disgyblion Safon Uwch yr Ysgol yn wych gyda 86% o'r graddau yn rhai A*-C. Fe dderbyniodd 65 myfyriwr gymhwyster y Fagloriaeth Gymreig sy'n gyfystyr â gradd A - y nifer fwyaf yn hanes yr ysgol. Mae pob myfyriwr a wnaeth gais am le mewn prifysgol ar gyfer mis Medi wedi bod yn llwyddiannus a dymunwn yn dda iddynt. Roedd perfformiad disgyblion Blwyddyn 11 yn rhagorol gyda 83% o'r disgyblion a safodd arholiadau yn llwyddo i basio 5 TGAU A* - C neu gyfystyr ac ymfalchïwn yn eu llwyddiant.

## Ysgol Gymraeg Nant Caerau

Rydym yn edrych am wirfyddolwyr i'n helpu yma yn Nant Caerau. Os oes gennych ddiddoreb mewn gwrando ar blant yn darllen, arwain grwpiau bach ar lafar, chwarae gemau cysylltwch â'r pennaeth. Byddwn yn ddiolchgar dros ben am unrhyw gymorth! Rhif ffôn yr ysgol: 02920 599 469.

# Ysgol Glantaf

### Elusen Pen a Chalon

Mae dau ddisgybl o'r ysgol, sef Cian Wade ac Osian Davies, wedi bod yn brysyr yn sefydlu elusen Pen a Chalon / Head to Heart i godi arian ar gyfer yr Uned y Galon i Blant yng Nghymru ac ar gyfer yr Uned "Neurosciences Specialist Rehabilitation" yn Rookwood.

Erbyn hyn, mae Cian ac Osian wedi codi ymwybyddiaeth yr holl ysgol ynglŷn â'r elusen trwy wneud cyflwyniad a siarad yn yr holl wasanaethau blwyddyn. Ar Hydref 13, bydd Râs Hwyl noddedig mewn gwisg ffansi yn cael ei chynnal yn yr ysgol ac ar nos Sadwrn, cynhelir Noson Gala fawreddog ac ocsiwn.

Os hoffech unrhyw wybodaeth, gellir cael gwybodaeth ar safwe **www.HeadtoHeart.co.uk** neu drwy gysylltu â'r ysgol - Meleri Jones – **mwj@glantaf.cardiff.sch.uk** neu Dyfrig Rees – **dr@glantaf.cardiff.sch.uk**

### Gwnewch Wahaniaeth

Mae'r ysgol yn cymryd rhan yn yr her 30 diwrnod sydd yn arwain at yr Wythnos Atal Bwlio, Tachwedd 14 - 18. Mae'r her yn ceisio annog plant i ymddwyn mewn ffordd bositif a chadarnhaol ac ar hyn o bryd, hysbysir pawb yn yr ysgol yn ddyddiol gydag un frawddeg e.e. 'Rhowch help i rywun sydd angen cymorth' neu 'Dywedwch rywbeth neis wrth dri pherson', ac yna anogir pawb i weithredu'r hyn sy'n gynwysiedig yn y frawddeg. Gobeithio bydd hyn yn codi ymwybyddiaeth pawb i fod yn fwy caredig a gofalgar.

### Elusen Cancr Plant

Casglwyd £904.24 gan yr ysgol yn ddiweddar i gefnogi elusen disgybl o'r ysgol, Padrig Johnson, 'Christian Lewis Trust'. Casglwyd yr arian trwy amryw weithgareddau gan gynnwys eillio coesau a phennau a diwrnod gwisg anffurfiol.

### Pêl-rwyd

Llongyfarchiadau mawr i Francesca Richards o Flwyddyn 11 am gael ei dewis i garfan Cymru dan 16 ac i Katie Sullivan, Blwyddyn 11 a Nia Bodilly o Flwyddyn 10 am gael eu dewis i garfan y sir.


GWASANAETH CWNSELA

Angen arweiniad a chymorth i helpu eich sefyllfa? Rydym yn cynnig gwasanaeth cwnsela preifat ar gyfer pob math o broblemau personol. Gall y rhain fod yn broblemau hir dymor, megis anawsterau teuluol. Gall problemau gynnwys profedigaeth, iselder, colli gwaith, addysg. Rydym yn meddu ar gymwysterau proffesiynol ac yn aelodau o'r Sefydliad Cwnsela a Seicotherapi Prydeinig (BACP). Mae sesiynau cwnsela yn gyfrinachol ac wedi'u darparu mewn ystafell gwnsela yn ardal Mynydd Bychan, Caerdydd.

*Os hoffech drefnu sesiynau cwnsela, cysylltwch â Rhian Tilley*

**rhtilley@gmail.com** **07515 662763**




## DINESAIR **Rhif 116**

**Ar Draws**

1. Anhrefn dysg diog heb noddfa (8)
6. Eisiau bwyd yn llawn glud ar yn ail (4)
8. Dryswch cael seminar heb ddiwedd yn y pictiwrs (6)
9. Ailosod y siart i gael cyfarwyddyd (6)
10. Coginio cig ebol da yn berffaith (9)
13. Torri lawr ar y sgwrsio ar y llethrau (4)
14. Mae y rhwyd yn rhan o'n hagwedd (3)
15. Cael nerth wrth ddechrau ysgogi natur nwyfus ieuenctid (4)
16. Cain yn dal y marw a rhoi cyngor anghywir (9)
19. Es i fyd arall i ofyn (6)
20. Nofia o gwmpas ar ddechrau'r gwyliau yn y nant (6)
21. Brenin, ond dim mewn swydd (4)
22. Arthes wyllt a'i llid dan draed (8)

**I Lawr**

2. Crio yng nghanol y pigion (4)
3. Gweld y bustych mewn drych enfawr (4)
4. 'Ac wele, un __________ a ddaeth ac a'i haddolodd ef, gan ddywedyd, Arglwydd, os mynni, ti a elli fy nglanhau i' (Mathew) (13)
5. Liwgar deg lygredigaeth – gwyar haf
   Gwrid __________ (H.L.) (13)
6. '... y maent fel hun; y bore maent fel ______ a newidir' (Salmau) (8)
7. Yn ffoli mae Sioni wrth golli ei ben yn dilyn yr hyn sy'n iawn (8)
11. Crafwyr yn torri asgell fri (8)




12. 'Gan weddïo _____ ________ â phob rhyw weddi a deisyfiad yn yr Ysbryd'. (Effesiaid) (3,5)
17. 'Fy ________ fu ym Merwyn
    Ofer a gwag fore gwyn' (R.E.) (4)
18. Cael hwyl yn tynnu'r canol o'r drysi (4)

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams, 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN erbyn 5 Tachwedd.




**ACIWBIGO**
Gwenan Evans
**ACUPUNCTURE**

Helpu i wella iechyd a lles yn holistaidd gydag aciwbigo traddodiadol

Cysylltwch i drafod a fedr aciwbigo eich helpu chi. Ymgynghoriad cychwynnol byr 15 munud ar gael am ddim dros y ffôn neu yn y clinig.

**Ffôn: 07816 878117**
**Ebost: aciwbigo@gwenanevans.com**
**www.gwenanevans.com**

Clinics ym Mhenarth a'r Mwmbwls


# DINAS DIGWYDDIADAU

Fe fydd Caerdydd yn gartref i un o brif ddigwyddiadau cerddoriaeth y byd yn 2013. Mae'r ddinas wedi ennill yr hawl i lwyfannu Womex wedi blwyddyn o ymgyrchu i ddenu'r atyniad i brifddinas Cymru. Llwyddodd Caerdydd i guro ceisiadau gan nifer o ddinasoedd gan gynnwys Glasgow a Dulyn oedd ar y rhestr fer.

Mae Unesco wedi disgrifio Womex fel "y farchnad broffesiynol rhyngwladol bwysicaf ar gyfer cerddoriaeth byd o bob math".

Fe fydd perfformiadau nos, yn ystod y digwyddiad ym mis Hydref 2013, yn cael eu cynnal yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Bydd digwyddiadau'r dydd, a fydd yn cynnwys ffeiriau, arddangosfeydd ffilm ac ati, yn cael eu cynnal yn Arena Motorpoint Caerdydd.

Mae disgwyl rhyw 60 o gyngherddau gyda 300 o artistiaid, ffair fasnach gyda thua 650 o gwmnïau o dros 90 o wledydd a dros 400 o newyddiadurwyr cenedlaethol a rhyngwladol.

Fe fydd yr holl ddigwyddiad yn cael ei gynnal rhwng Hydref 23 a 27 2013

# Newyddion o'r Eglwysi

## Eglwys y Crwys

**Priodasau**

Bu hi'n gyfnod o briodasau yn Eglwys y Crwys dros fisoedd yr haf eleni a balch iawn y tro hwn eto yw gallu cyfeirio a llongyfarch nifer o'n haelodau. Ddydd Llun Awst y 29ain priododd Rhiannon Evans ag Owain Evans. Mae Rhiannon wedi ei magu yn yr eglwys tra bod Owain yn hanu o ardal Henllan yn Sir Ddinbych.

Yn Eglwys Llwydlo, ddydd Sadwrn Awst y 27ain y priododd Thomas Williams, Pontcanna a Kate Creese,tra yng nghapel y Crwys ar Ddydd Gwener Medi 16eg y priododd Sioned Roberts a Cai Pritchard. Ein Gweinidog, y Parchg Glyn Tudwal Jones gafodd y fraint o weinyddu yn yr achlysuron hapus yma, gryn chwech ohonynt dros gyfnod o dri mis.

**Dosbarth Beiblaidd**

Erbyn hyn mae'r dosbarth yma wedi ail ddechrau wedi misoedd yr haf. Y maes llafur hyd at y Nadolig fydd y gwahanol agweddau ar y *Bregeth ar y mynydd*. Croeso cynnes i unrhyw un sy'n dymuno ymuno â'r dosbarth.

**Bore Coffi**

Ar fore Sadwrn Medi 17eg cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus iawn yng nghartre' Bob a Margaret Roberts yn Rhiwbeina. Bydd yr elw o rai cannoedd a godwyd yn ystod y bore yn mynd i'r Cylch Cymorth ac fe'i dosberthir rhwng nifer o elusennau adeg y Nadolig.

**Cyngerdd**

Cynhelir cyngerdd gan Gôr C.F.1 yng Nghapel y Crwys, Heol Richmond ar Nos Sul Tachwedd 6ed am 8 o'r gloch. Tocynnau £5:00. Croeso cynnes i bawb.

## Salem Treganna

Mae Medi wedi bod yn fis hynod brysur wrth i'n gweithgareddau ail ddechrau wedi'r haf. Braf iawn yw cyfarfod â phawb unwaith eto wedi'r gwyliau.

Yn ystod y mis mae'r gweithgareddau canlynol wedi cyfarfod: Clwb Llyfrau, Clwb Brecwast, Grŵp canu, Adran yr Urdd Salem, Clwb Cerdded, Cylch Trafod Beiblaidd a'r Gell Weddi.

Er mwyn gweld manylion ein cyfarfodydd, ewch i weld yr holl fanylion ar ein gwefan sef **www.capelsalem.org** ac edrychwch o dan 'Cyhoeddiadau'. Croeso mawr i chi ymuno â ni.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn fawr ag Elsbeth a'r teulu oll, wrth golli'r Parchg Wynne Edwards. Cydymdeimlwn yn fawr hefyd â Cath a Robbie, wrth i Cath golli ei mam.

**Bedydd**

Bedyddiwyd Alaw a Huw, plant Llinos a Gwilym yn ystod y mis. Dymuniadau da iddynt i'r dyfodol fel teulu.

## Bethel Rhiwbeina

Cafwyd cynulleidfa dda yn ein Cwrdd Diolchgarwch dan arweiniad y Gweinidog, y Parchg T. Evan Morgan. Cyfrannwyd y casgliad i Gymorth Cristnogol.

Diolchwyd i Mrs Anna Lisa Jenaer am gwblhau cyfnod o ddeng mlynedd fel trefnydd yr Ysgol Sul. Dymunwn yn dda i'r rhieni fydd yn trefnu'r Ysgol Sul yn y dyfodol.

Dymunir gwellhad buan i Mrs Mair Jones, Sain Niclas.

## Tabernacl, Caerdydd

**Ysgogwr yr ifanc yn y Tabernacl**

Un na ddychwelodd i'w swydd fel athro yn Ysgol Mynydd Bychan oedd Marc Jon Williams. Bydd ef yn troi ei sylw at hyrwyddo gwaith ieuenctid yn ein plith, yn ceisio datblygu gweithgareddau ymysg y teuluoedd ifanc sy'n gysylltiedig â'r eglwys ac yn gobeithio cyrraedd teuluoedd o'r newydd. Dymunwn yn dda iddo yn ei waith o fewn yr eglwys a hefyd yn ei ddyletswyddau fel Ysgogwr Cenhadaeth yng Nghymanfa Dwyrain Morgannwg.

**Dathliadau Priodasol Arbennig**

Yn ystod yr haf, llongyfarchwn Gwenallt a Non Rees ar ddathlu eu Priodas Aur, a Ceri a Helen Preece ar ddathlu eu Priodas Berl.

**Derbyn aelodau newydd**

Braint i'r eglwys oedd derbyn dau aelod newydd ddiwedd mis Gorffennaf. Bu Rhiannon Michael a Wil Morgan yn cyd-addoli gyda ni ers tro ac yn selog yn ein hoedfaon.

**Priodas**

Ar Fedi 1af priodwyd Lowri Evans a Tom Guy, yng nghapel Horeb, Penrhyn-coch. Roedd y cyfan o dan arweiniad Peter Thomas, cyn-weinidog yr eglwys.

**Ysgol Sul**

Dechreuodd rhaglen waith yr ifanc ddechrau mis Medi, a diolchwn i Gwenllïan Evans a Nia McVeigh am eu harweiniad dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Rydym yn croesawu Rhian Williams a Mai Giles i weithredu fel cyd-arolygwyr am y flwyddyn nesaf.

**Sul 'Nôl i'r Eglwys' Medi 25ain**

Bu'r Tabernacl yn cynnal oedfa ar Sul olaf mis Medi ers sawl blwyddyn yn cymell pobl i ail afael yn eu cyswllt â'r oedfaon, ac felly hefyd eleni. Bu'n brofiad i lawer un dros y blynyddoedd i golli'r arfer o fynychu cyfarfodydd moliant, a hynny am amrywiaeth o resymau. Neges greiddiol yr Efengyl yw sôn am 'gyfle newydd arall' – gobeithiwn ein bod wedi llwyddo y tro hwn hefyd.

**Bore Coffi**

Diolch i Gill a John Thomas am eu croeso i'w cartref yn ystod mis Awst a hefyd i Eirlys a Gwyn Jones ganol mis Medi.

## Minny Street

**Y Cylch Dinasyddiaeth: Nwyddau Masnach Deg**

Wrth ymgyrchu i sicrhau bod nifer cynyddol o'n harchfarchnadoedd yng Nghaerdydd yn gwerthu nwyddau Masnach Deg mae Cylch Dinasyddiaeth yr eglwys yn darparu cyfle misol i brynu ystod eang o nwyddau o *Siop Fair Do's Siopa Teg*. Cawn gyfle hwylus nid yn unig i brynu'r bwydydd a geir yn ein siopau (coffi, te, ffrwythau sych, siocled ac ati) ond hefyd ambell nwydd amgen (e.e. bagiau, dillad, cardiau cyfarch). Masnach Deg: *Byd o wahaniaeth*.

Am holl newyddion diweddaraf Minny Street ewch i www.minnystreet.org.



*Criw bywiog PIMS (Pobl Ifanc Minny Street) yn cael hwyl yng Ngholeg Iwerydd, Sain Dunwyd*

**Penwythnos prysur 16/18 Medi**

Am yr wythfed flwyddyn yn olynol bu PIMS (Pobl Ifanc Minny Street) yng Ngholeg Iwerydd, Sain Dunwyd am y penwythnos. Cyfnod o hwyl a myfyrdod yw'r deuddydd ac ers dwy flynedd bu cyswllt rhwng y digwyddiad a Gŵyl Flynyddol yr eglwys. Eleni bu 16 o bobl ifanc yr eglwys yn Sain Dunwyd a chafwyd hwyl i'w ryfeddu yn nofio, mynydd-fyrddio, canŵio a gwibio lawr y *zip-wire*, cyn neidio i mewn i'r pwll nofio allanol!

Yn ystod y cyfnodau mwy tawel, aeth y bobl ifanc ati i baratoi a thrafod cynnwys oedfa foreol dydd Sul 18 Medi. Oedfa ailgydio (ar ôl tawelwch yr haf) ac ailymgysegriad yw oedfa foreol yr Ŵyl Flynyddol a phwy gwell nag aelodau PIMS, yng nghanol asbri eu ffydd, i arwain yr ail-ymgysegru hollbwysig. Cerdd fawr Waldo, *Pa beth yw Dyn?* oedd canolbwynt ein haddoliad. Cawsom ein harwain gan aelodau PIMS trwy bob un o gymalau'r gerdd a gwelwyd bod yn y geiriau neges heriol i ni yn Eglwys Minny Street a bod gwaith gan bob un ohonom i'w gyflawni dros Eglwys Iesu Grist yn y brifddinas.

Y Parchedig Kevin Davies, Gweinidog Eglwysi Bethel, Penarth a'r Tabernacl, y Barri a wahoddwyd i'n harwain yn oedfa hwyrol yr Ŵyl Flynyddol. Mewn pregeth ystyrlon ac amserol, awgrymodd fod tebygrwydd rhwng y cyfnod a ddisgrifir ym Mhroffwydoliaeth Eseciel a Chymru 2011, a bod Eseciel yn galw arnom i droi o'r newydd at Dduw.

## Capel Ebeneser

**Dathlu 25**

Ar 4ydd o Fedi cyflwynodd Malcolm Thomas rodd i Alun a Vikki Tudur i ddathlu eu Priodas Arian. Cyflwynwyd blodau i Vikki gan Nansi Evans ein haelod hynaf a gwniadwaith cywrain wedi'i fframio gan Eira Jones i nodi'r achlysur. Hefyd mewn cwta wythnos cyrhaeddodd Alun y garreg filltir o 25 mlynedd yn y weinidogaeth.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn gydag Afryl, Aled a Gruffydd Glyn; Gwenllïan, Ynyr a Deio Roberts yn eu profedigaeth yn ddiweddar. Bu farw tad Afryl, oedd yn byw ym Mlaenau Ffestiniog. Gweddïwn y bydd gobaith atgyfodiad yr Arglwydd Iesu o gysur iddynt.

**Llongyfarchiadau**

... i Rebecca Thomas, y Mynydd Bychan ar ei llwyddiant yn yr arholiadau Lefel 'A'. Pob dymuniad da iddi wrth ddechrau ar gwrs gradd Hanes yng Ngholeg Sant Ioan, Caergrawnt.

...i Gruffydd Evans, Danescourt ar ei lwyddiant yn yr arholiadau Lefel A. Pob dymuniad da iddo wrth ddechrau ar gwrs drama ym Mhrifysgol Caerwysg (Exeter).

... i Dafydd Evans, Penylan, ar ennill gradd ym Mhrifysgol Caerdydd a phob dymuniad da iddo yn ei deithiau o amgylch y byd.

**Dyweddïad**

Llongyfarchiadau i Richard Peleg Williams ar ei ddyweddïad gyda Lucy Wicker, merch wedi ei geni a'i magu yn Manhattan Beach, Los Angeles. Bydd y briodas yn LA yn gynnar y flwyddyn nesaf.

Llongyfarchiadau i Shelagh Clifford a Finbar Lonergan ar eu dyweddïad. Mae Shelagh'n ferch i Helen Hilling, Llandâf.

**Cleifion**

Mae Tom Evans, Penarth, yn parhau i dderbyn triniaeth wythnosol. Derbyniodd Tegwen Hughes lawdriniaeth ar ei llygad. Bu Allan Davies, y Rhath, yn yr ysbyty yn derbyn clun newydd. Dymunwn wellhad llwyr iddo. Treuliodd Irfon Evans, Treganna, nifer o wythnosau yn Ysbyty Llandochau.

Cofiwn hefyd am y rhai sy'n gaeth i'w cartrefi a chartrefi gofal sef, Peggy Thomas, Menna Bennett, Nesta Chappell, Irfon Evans, Maurin Hurley, Mair Evans, Penylan a Catherine Wallace.

## Eglwys Dewi Sant

**Cydymdeimlo**

Tristwch i bawb oedd clywed am farwolaeth Eunice Iddles yn ddiweddar ac estynnir cydymdeimlad diffuant â'i mab Huw a'i deulu. Roedd Eunice wedi bod yn un o ffyddloniaid mwyaf selog Dewi Sant ar hyd y blynyddoedd ac fe erys atgofion annwyl iawn ohoni .

**Dymuno'n dda**

Ar ddiwedd gwasanaeth bore Sul 18 Medi cyflwynwyd tysteb ar ffurf dau lyfr diwinyddol swmpus a thocyn llyfrau i Rhun ap Robert i ddymuno'n dda iddo ar ddechrau ei hyfforddiant ar gyfer y weinidogaeth ordeiniedig yng Ngholeg San Mihangel, Llandaf.

**Bws a phas a phererindod**

Yn yr wythnos 19-25 Medi fe gyflawnodd Margaret a Cyril Hughes eu pererindod gan deithio dros 500 o filltiroedd mewn pum bws ar hugain a aeth a nhw ar hyd lonydd cul, i bentrefi diarffordd a threfydd prysur Cymru, a'r cyfan i chwyddo cronfa codi-arian yr Eglwys Cawsant groeso ym mhob Cadeirlan ac fe gyflwynon nhw gerdyn-cyfarch benodol o Eglwys Dewi Sant i bob Cadeirlan. Braf oedd cael eu croesawu yn ôl yn ddiogel ar ddiwedd y daith lwyddiannus.

# Calendr y Dinesydd • Hydref-Rhagfyr 2011

**Mawrth, 11 Hydref**
Merched y Wawr Caerdydd. Manon Rhys, enillydd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Fro eleni, yn trafod ei nofel Neb Ond Ni, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7.30pm.

**Mercher, 12 Hydref**
Gwasanaeth, ffair a noson goffi, yn Eglwys Park End am 7.00pm. I annerch: Parch. Robert Bebb. Tocynnau £1.

**Gwener, 14 Hydref**
Cymrodorion Caerdydd. Noson Arwisgo Llywydd y Cymrodorion am 2011–12, sef Havard Gregory, yn cynnwys sgwrs gan y Llywydd newydd ar y testun 'Hwn-a-hwn, hyn-a'r-llall, fel-a'r-fel'. Yn festri Capel Minny Street am 7.30pm. Croeso i aelodau newydd.

**Sadwrn, 15 Hydref**
Gêm Gartref C.R. Cwins Caerdydd (Adran 4) yn erbyn Tredegar Newydd ar Faes Diamond, Yr Eglwys Newydd. C.G. 2.30pm.

**Llun, 17 Hydref**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Sgwrs gan Eirwen Richards ar y testun 'Bugeiliaid y Stryd, Pen-y-bont ar Ogwr', yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30pm.

**Llun, 17 Hydref**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mawrth, 18 Hydref**
Noson agoriadol cyfarfod misol sy'n trafod cynnyrch llenyddol Eisteddfod Genedlaethol 2011. Yn festri Capel Tonyfelin, Caerffili, am 7.00pm. (Bydd chwe chyfarfod dros fisoedd y gaeaf.) Manylion pellach: Dr E. Wyn James (029-2062-8754; JamesEW@caerdydd.ac.uk). Mae nifer o aelodau'r dosbarth yn dod o Gaerdydd – croeso i ragor!

**Mawrth, 18 Hydref**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Russ ac Ann Thomas a John Albert a Tegwen Evans yn sgwrsio am 'lun oddi ar wal fy nghartref', yn festri Capel Minny Street, am 7.30pm.

**Mercher, 19 Hydref**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Taith.

**Gwener, 21 Hydref**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan yr Athro Peredur Lynch ar y testun 'Ifor, Harri a Saunders', yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru.

**Sadwrn, 29 Hydref**
Cynhelir cynhadledd ar y cyd rhwng Adran Ethnoleg ac Astudiaethau Gwerin ac Adran Glasurol Cymdeithas Cyn-Fyfyrwyr Prifysgol Cymru yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, ddydd Sadwrn, 29 Hydref, rhwng 10.00 a 4.30. 'Tai yng Ngwlad Groeg a Chymru o'r Cyfnod Cynnar hyd at y Cyfnod Modern' yw thema'r gynhadledd, a'r siaradwyr fydd John Ellis Jones, Gerallt Nash, Ffion Reynolds ac Eurwyn Wiliam. Tâl: £5. Croeso cynnes i bawb. Manylion pellach: Dr Emma Lile, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, CF5 6XB (emma.lile@amgueddfacymru.ac.uk).

**Mawrth, 1 Tachwedd**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Noson gerddorol yng nghwmni Mair Robins, yn festri Capel Minny Street, am 7.30pm.

**Mercher, 2 Tachwedd**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'I Fyd y Gân' yng nghwmni Mair Robins, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Mercher, 2 Tachwedd**
Merched y Wawr Bro Radur. Eurgain Haf yn sôn am 'Achub y Plant', yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

**Iau, 3 Tachwedd**
Clwb Gwawr 'Llygaid y Dydd'. Noson blasu gwin yng Nghlwb Bowls Pen-hill am 8.00pm. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch drwy dudalen Facebook ClwbGwawrCaerdydd neu drwy e-bost (clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com).

**Gwener, 4 Tachwedd**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan Dr E. Wyn James ar 'Emynwyr Bro Morgannwg', yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, am 7.30pm.

**Gwener, 4 Tachwedd**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd a Chymdeithas Carnhuanawc. Cinio ar y cyd i ddathlu pen-blwydd y Cylch Cinio yn 60 oed a Chinio Blynyddol Cymdeithas Carnhuanawc, yng Ngwesty Churchills am 7.30 pm. Pryd tri chwrs: £21 – siec ymlaen llaw i 'Cymdeithas Carnhuanawc'. Siaradwraig wadd: Angharad Mair. Manylion pellach gan Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Gwener, 4 Tachwedd**
Cylch Cadwgan. Idris Reynolds yn siarad ar y testun 'Dic', yn y Ganolfan, Tabernacl, Efail Isaf am 8.00pm. Cydnabyddir cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru.

**Mercher, 9 Tachwedd**
Cymdeithas Chrysanthemums a Dahlias Caerdydd a'r Cylch. Sioe Flodau Chrysanthemums/Ffarwel Haf, yn Neuadd y Sgowtiaid, Heol y Bont, Rhiwbina, 2.30pm–6.30pm.

**Iau, 10 Tachwedd**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Sgwrs gan Wynford Ellis Owen am Gyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill, yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, am 7.30pm.

**Gwener, 11 Tachwedd**
Cynhelir Degfed Gynhadledd Flynyddol Canolfan Uwchefrydiau Cymry America ddydd Gwener, 11 Tachwedd, rhwng 10.15am a 3.45pm. Thema'r gynhadledd: 'Cymry ar Daith ar Gyfandiroedd America.' Siaradwyr: Dylan Iorwerth, E. Wyn James, Bill Jones, Diana Luft, Catrin Stevens. Lleoliad: Ystafell 0.36, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd. Tâl: £15 (£10 i rai digyflog). Croeso cynnes i bawb. Manylion pellach: Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd (029-2087-4843; ebost: cymraeg@caerdydd.ac.uk; gwefan: www.caerdydd.ac.uk/cymraeg/).

**Sadwrn, 12 Tachwedd**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Lynne Davies am 11.00am ar y testun, 'Yr Eisteddfod a'r Beirdd Ifainc'. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 12 Tachwedd**
Cyngerdd organ ganol-dydd gan Terry Gilmore James yng Nghapel Tabernacl, Yr Ais, i ddathlu atgyweirio'r organ yno.

**Mawrth, 15 Tachwedd**
Merched y Wawr Caerdydd. Cinio a chyngerdd prynhawn yng Nghanolfan y Mileniwm.

**Mawrth, 15 Tachwedd**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Owain Llŷr Evans, Rhiannon Evans a Glyn Jones yn trafod 'lle i enaid gael llonydd', yn festri Capel Minny Street, am 7.30pm.

**Mercher, 16 Tachwedd**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Tro i'r Baltig' gyda Mefus Eirwyn-Evans, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Gwener, 18 Tachwedd**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan yr Athro J. Gwynfor Jones ar y testun 'Ysgrifennu Hanes – Hanes Enwad', yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru.

**Llun, 21 Tachwedd**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Sgwrs gan yr Athro Stuart Cole ar y testun 'I'r Gorllewin o Paddington', yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30pm.

**Llun, 21 Tachwedd**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. 'Diogelwch trwy Ddaearu Pŵer Trydan.' Darlith gan Dr Mark Davies (Cwmni Earthing Solutions), yn Ystafell G77 ym

## Calendr y Dinesydd - *parhad*

Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Iau, 24 Tachwedd**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Pwyllgor Blynyddol, yng Nghapel Salem, Treganna, am 7.30pm.

**Gwener, 25 Tachwedd**
Cyngerdd gan *The Lost Chords* yng nghapel Trehill, Sain Nicolas at Eisteddfod y Fro 2012 am 7pm. £5 – tocynnau gan Gwyn 01446 760608.

**Mawrth, 29 Tachwedd**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. 'Gefeillio Eglwysi – yr Eglwys ar Waith.' Hanes y cysylltiad â Lesotto gan Gwenallt a Non Rees, yn festri Capel Minny Street, am 7.30pm.

**Mercher, 30 Tachwedd**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Ymweld â'r Amgueddfa Genedlaethol yng nghwmni Ann Saer.

**Llun, 5 Rhagfyr**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Llun, 5 Rhagfyr**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7.30 pm. Siaradwraig wadd: Nerys Howell (Ymgynghoriaeth Bwyd Howel). Manylion pellach gan Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mercher, 7 Rhagfyr**
Merched y Wawr Bro Radur. Blasu bwydydd y Nadolig gyda'r cogydd Aneira Wyn Jones, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

**Mercher, 7 Rhagfyr**
Clwb Gwawr 'Llygaid y Dydd'. Noson i steilio gwallt at y parti Nadolig yng nghwmni arbenigwr yn y maes, yng Nghlwb Bowls Pen-hill am 8.00pm. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch drwy dudalen Facebook ClwbGwawrCaerdydd neu drwy e-bost (clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com).

**Sadwrn, 10 Rhagfyr**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Dr Christine James am gerdd Nadoligaidd am 11.00am. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd.,
Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
(Ffôn: 029-2062-8754;
ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

# *Holl Ramant yr Ŵyl – Nadolig ar Ynys Echni*

Mae'n addo bod yn Nadolig heb ei ail eto eleni wrth i Staff a Wardeiniaid Ynys Echni baratoi ar gyfer Nadolig ardderchog arall ar yr Ynys. Estynnir gwahoddiad cynnes i ymwelwyr ddathlu tymor yr ŵyl ar Ynys Echni a phrofi holl ramant bywyd ar yr ynys adeg y Nadolig.

Bydd y daith Nadolig yn gadael 23 Rhagfyr ac yn dychwelyd 27 Rhagfyr. Bydd Taith Dathlu'r Flwyddyn Newydd yn gadael 30 Rhagfyr ac yn dychwelyd 2 Ionawr 2012.

Mae hwyl yr ŵyl ar Ynys Echni'n cynnwys nosweithiau gemau a chwis Nadolig. Fel arall gall ymwelwyr fwynhau hamddena ar hyd yr arfordir, ac ymlacio'n llwyr wrth wylio'r haul yn machlud. Cynigir cyfle hefyd i helpu gyda gwaith cadwraeth ar yr ynys gan gynnwys codi waliau cerrig sychion a thorri broc môr i wneud tân ar gyfer nosweithiau cysurus yn y Ffermdy.

Bydd ymwelwyr â'r Ynys yn aros yn yr ystafelloedd cysgu yn ffermdy'r ynys sydd â gwres canolog. Caiff prydau bwyd eu paratoi ar sail rota, gyda phawb yn cymryd eu tro. Ar Ddiwrnod Nadolig bydd y Wardeniaid yn helpu i baratoi cinio Nadolig arbennig iawn i'r gwesteiwyr. Os bydd y tywydd yn dda Nos Calan, bydd cyfle i ddefnyddio'r barbiciw awyr agored i ddathlu'r Flwyddyn Newydd mewn steil, wrth wylio tân gwyllt yn ffrwydro dros ddinas Caerdydd.

Eleni bydd cyfle i ymwelwyr ddathlu'r Nadolig dros wydraid neu ddau yn nhafarn newydd sbon yr ynys The Gull and Leek, sy'n cynnig detholiad o gwrw a gwinoedd lleol. Gyda thrwydded estynedig dros y Nadolig ac ar Nos Calan, does dim amdani ond mynd ati i ddathlu'r ŵyl!

I archebu'r profiadau unigryw hyn dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd cysylltwch â thîm Ynys Echni ar 029 2087 7912. I gael rhagor o wybodaeth ar Ynys Echni ewch i www.ynysechni.com

# CENNIN PEDR CAERDYDD YN TYWYNNU

Mae ardaloedd ar draws y ddinas ar fin troi'n lliwgar iawn gyda menter plannu bylbiau cymunedol Cyngor Caerdydd.

Mae'r cynllun yn ei ail flwyddyn ac mae'n rhoi cyfle i grwpiau cymunedol gael gafael ar fylbiau Cennin Pedr unigryw 'Caerdydd' i'w plannu mewn mannau amlwg i bobl eu mwynhau. Os yw'r amodau tyfu yn ffafriol, gallai'r bylbiau flodeuo mewn pryd ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi, gobeithio!

Datblygwyd Cennin Pedr arbennig 'Caerdydd' i ddathlu canmlwyddiant Caerdydd fel dinas a hanner canrif fel prifddinas Cymru yn 2005. Ers hynny mae miloedd o fylbiau wedi'u plannu yn y ddinas.

Disgrifir y blodyn fel Narcissus prydferth, tal, persawrus, melyn â 'chwpan' mawr ac fe'i tyfwyd ar foryd yr Afon Fal yng Nghernyw gan Jim Hoskin, tyfwr bylbiau arbenigol. Really Welsh Company sy'n tyfu a chyflenwi'r bylbiau erbyn hyn.



Dylid plannu'r bylbiau cyn dechrau mis Rhagfyr i ddyfnder sydd gyfwerth â dwywaith hyd y bwlb, mewn man heulog sy'n draenio'n dda. Dylid gadael bylbiau mewn cynhwysyddion y tu allan tan ar ôl y Nadolig, a'u cadw'n llaith, yna dylid dod â nhw i mewn i flodeuo mewn lleoliad â digon o olau.

# Gwastraff Llwyr

Mae Cyngor Caerdydd wedi cyflwyno gwasanaeth casglu bagiau ailgylchu a gwastraff bwyd wythnosol newydd ledled y ddinas.

O hyn allan gallwch ailgylchu hyd yn oed mwy, oherwydd caiff bagiau ailgylchu gwyrdd a chadis bwyd ymyl y ffordd eu casglu bob wythnos. Caiff eich gwastraff gardd a'ch gwastraff cyffredinol eu casglu bob pythefnos, bob yn ail wythnos. Hefyd, mae diwrnodau casglu ailgylchu a gwastraff yn newid.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â C2C ar 2087 2088, anfonwch e-bost at C2C@caerdydd.gov.uk, neu ewch i wefan y Cyngor yn **www.caerdydd.gov.uk/gwastraff**. Os na allant ateb eich ymholiad dros y ffôn, gall y tîm ymweld â chi i roi cyngor wyneb yn wyneb.




*Mistar Cadi*